Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymchwil Gymunedol Abaty Nedd

**Dyddiad cyhoeddi:** 8 Rhagfyr 2022
**Rhif Ymchwil Gymdeithasol:** 76/2022.



© Crown copyright 2022 Welsh Government, WG45617, Print ISBN xxx-x-xxxxx-xxx-x, Digital ISBN xxx-x-xxxxx-xxx-x

OGL

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Ymchwil Gymunedol Abaty Nedd 2022

Awdur: Ceri Thomas

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Rhif ymchwil gymdeithasol – 76/2022

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil
Cadw
Adeilad Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
E-bost: cadw.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Geirfa ........................................................................................................... 2

1. Rhagarweiniad/Cefndir ........................................................................... 3

2. Methodoleg ............................................................................................ 5

3. Canfyddiadau ......................................................................................... 7

4. Casgliadau ac Argymhellion ................................................................... 16

**Geirfa**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| TDH | Tîm Datblygu Henebion |
| USC | Uwch Swyddog Cyfrifol |

## 1. Rhagarweiniad/Cefndir

1.1 Sefydlwyd Abaty Nedd gan Richard de Granville ym 1130 gyda Savigny yn Normandi yn fam-fynachlog iddi; cafodd ei chorffori yn rhan o'r urdd Sistersaidd ddwy flynedd ar bymtheg yn ddiweddarach, gan ddod yn dŷ lled gyfoethog. Ym mis Mawrth 1539, diddymwyd yr abaty dan Harri VIII a chafodd ei ddinistrio fesul tipyn. Yn fuan wedyn, cymerodd Richard Williams, neu Cromwell fel arall, yr abaty ac adeiladwyd y plasty Tuduraidd mawreddog. Ar ddechrau'r 18fed ganrif, neilltuwyd tiroedd yr Abaty at ddibenion diwydiannol. Yn gynnar yn y 1920au, dechreuodd y *Neath Abbey Research Party* ymgyrch clirio enfawr. Fe symudon nhw tua 4,000 tunnell o falurion o eglwys yr Abaty yn unig gan achub yr Abaty rhag y gwastraff diwydiannol oedd wedi claddu'r lle. Rhoddwyd yr Abaty yng ngofal y Wladwriaeth ym 1944.

1.2 Saif yr Abaty rhwng trac rheilffordd a chamlas ym mhentref Abaty Nedd, ar gyrion Castell Nedd. Mae'n hawdd cyrraedd ardal Abaty Nedd ar hyd y prif lwybrau trafnidiaeth, ond mae'r Abaty ei hun wedi'i leoli y tu ôl i ystâd ddiwydiannol sydd â chyfleusterau cyfyngedig gerllaw. Mae'r lleoliad ehangach yn ardal wledig yn bennaf.

1.3 Caiff Abaty Nedd ei weithredu gan Cadw fel safle 'cadw gydag allwedd' rhad ac am ddim, ac mae ar agor i'r cyhoedd rhwng 10:00-16:00 bob dydd.

1.4 Derbyniodd yr Abaty fuddsoddiad cadwraeth sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, i sicrhau'r safle ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cyflawnwyd y gwaith cadwraeth dros bedwar cyfnod, gyda'r cyfnod olaf yn dod i ben yn 2021. Ffurfiwyd Tîm Datblygu Henebion (TDH) er mwyn sicrhau dull cyfannol o ddatblygu'r safle ynghyd â nodi cyfleoedd masnachol ac ymgysylltu. Mae nifer o brosiectau cyfalaf presennol i fod dod i ben yn 2022, ac mae hyn yn rhoi cyfle i'r TDH ddatblygu cynnig ar gyfer gwella'r safle ymhellach, gan ddefnyddio'r ymchwil presennol hwn fel sail i'r rhesymeg a'r penderfyniadau a wneir.

1.5 Cwmpas yr ymchwil gyfredol yw:

- Casglu gwybodaeth am ddefnydd ac amgyffrediad presennol y gymuned leol o Abaty Nedd
- Casglu gwybodaeth am farn y gymuned leol ynghylch defnydd a datblygiad y safle yn y dyfodol.

- Sicrhau llinell sylfaen ar effaith yr heneb ac amgylchedd hanesyddol ehangach CNPT ar les y gymuned leol.

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau'r arolwg, y casgliadau a'r argymhellion. Mae cwestiynau’r arolwg i’w gweld yn Atodiad A.

## 2. Methodoleg

2.1 Cynhaliwyd yr ymchwil drwy arolwg digidol rhwng 19 Ionawr 2022 a 21 Chwefror 2022.

2.2 Hyrwyddwyd yr arolwg i bobl o fewn radiws o 10 milltir i Abaty Nedd (y pentref) ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Cadw a'i rannu gan randdeiliaid cymunedol, gan gynnwys Cyngor Castell-nedd Port Talbot. Ategwyd hyn gan daflenni marchnata a gafodd eu dosbarthu i fusnesau lleol i'w rhannu â chwsmeriaid.

2.3 Cwblhawyd cyfanswm o 1,083 o arolygon. Roedd hyn yn cymharu â sampl targed o 1,000.

2.4 Roedd y sampl yn cynnwys ystod o grwpiau oedran; er hynny, cafwyd cyfranogiad isel gan y rhai dan 25 oed (2%).

2.5 Roedd y sampl yn cynnwys 64% o ymatebwyr benywaidd, roedd 35% yn ddynion ac 1% yn arall; gogwydd tuag at ymatebwyr benywaidd o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

2.6 Roedd 97% o'r cyfranogwyr yn wyn, 1% (10) o grwpiau ethnig cymysg/lluosog, ac roedd yn well gan 2% beidio â dweud.

2.7 Mae galwedigaeth y cyfranogwyr wedi'i dadansoddi fel a ganlyn.

| Galwedigaeth | Canran |
|---|---|
| Cyflogedig neu hunangyflogedig | 62% |
| Wedi ymddeol | 23% |
| Methu gweithio | 4% |
| Gofalu am y cartref neu'r teulu | 4% |
| Myfyrwyr | 2% |
| Arall* | 5% |


*Sylfaen – 1,083*

**Yn cynnwys ar gynllun hyfforddi a noddir gan y llywodraeth, gwneud gwaith di-dâl ar gyfer busnes rydych chi neu berthynas yn berchen arno, yn aros i ymgymryd â gwaith cyflogedig a gafwyd eisoes, yn ddi-waith ac yn chwilio am waith, yn bwriadu chwilio am waith ond hyn wedi'i rwystro gan salwch neu anaf dros dro (28 diwrnod neu lai), gwneud rhywbeth arall a ddim yn gwybod.*

2.8 Roedd 9% o'r cyfranogwyr yn aelodau o Cadw, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

2.9 Abaty Nedd a’r ardaloedd cyfagos yn bennaf oedd dwysedd lleoliad cartref yr ymatebwyr gyda gwasgariad daearyddol ychydig yn ehangach na’r ardal darged o 10 milltir. Roedd hyn oherwydd bod y negeseuon oedd wedi’u targedu ar *Facebook* yn nodi lleoliadau pobl yn hytrach na chyfeiriadau cartref, a chanlyniad hyn oedd bod yr arolwg wedi ei weld gan y rheini sy’n gweithio yn yr ardal, yn ymweld ac yn teithio drwyddi. Roedd yna hefyd rai pobl o’r tu allan, a hynny oherwydd bod cyfranogwyr ar wyliau pan hysbysebwyd yr arolwg, neu'r arolwg yn cael ei rannu'n ehangach gan y rhai hynny yn ardal Abaty Nedd. Serch hynny, dim ond 5% o ymatebwyr oedd yn byw y tu allan i ardal ehangach Castell-nedd.

**Ffigur 1: Gwasgariad daearyddol yr ymatebwyr**



## 3. Canfyddiadau


### 3.1 Amlder ymweliadau:

Nid oedd hanner yr ymatebwyr (25%) wedi ymweld erioed ag Abaty Nedd neu heb ymweld yn ystod y 12 mis diwethaf (25%). Mae 18% o’r ymatebwyr yn ymweld yn rheolaidd a 31% ychydig o weithiau yn unig.

Mae hyn yn cymharu â 23% o’r ymatebwyr ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019 oedd wedi ymweld â man addoli hanesyddol o fewn y 12 mis blaenorol. Bydd Covid-19 wedi effeithio ar ganlyniadau’r ymchwil hwn, gyda dechrau’r cyfnod o 12 mis yn dyst i’r ffaith bod llawer o bobl yn dechrau dychwelyd i fynd am ddiwrnodau allan mewn mannau cyhoeddus.

***A ydych chi wedi ymweld ag Abaty Nedd yn ystod y 12 mis diwethaf?***

**Ffigur 2: Pa mor aml y mae’r cyfranogwyr wedi ymweld rhwng Ionawr 2021 a Chwefror 2022**




*Sylfaen – 1,083*

Dywedodd 22% o’r cyfranogwyr eu bod yn ymweld yn rheolaidd ac y byddant yn parhau i wneud hynny, tra dywedodd 58% eu bod yn bwriadu ymweld eto (mae hyn yn cymharu â 18% sy’n dweud eu bod yn ymweld yn rheolaidd ar hyn o bryd). Dim ond 7% o'r cyfranogwyr a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i ymweld â'r Abaty.


## 3.2 Pam bod pobl yn ymweld

Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr dicio pob datganiad sy'n berthnasol, y prif reswm dros ymweld yw diddordeb mewn hanes, diwylliant a safleoedd hanesyddol (67%); dilynwyd hyn gan dri rheswm cyfartal ar 52% (eisiau cael profiad o Abaty Nedd, mae Abaty Nedd yn rhan annatod o'r gymuned, mae'r mynediad am ddim).

O'i gymharu â chanlyniadau arolwg ymwelwyr Cadw ar draws pob safle, ymwelodd 70% yn gyson oherwydd diddordeb mewn hanes a safleoedd hanesyddol ac roedd 32% eisiau dysgu mwy am y safle.

***Beth yw eich rhesymau dros ymweld?***

**Ffigur 3: Rhesymau pam bod pobl wedi ymweld ag Abaty Nedd**




*Sylfaen – 1,083*

## 3.3 Rhwystrau i ymweld


3.3.1 Y prif reswm pam nad yw'r rhai sy'n ymweld yn ymweld yn amlach yw nad oes digon o amser (32%) ac yna'n dilyn, does dim llawer i'w wneud (21%). Roedd y rhesymau 'eraill' yn amrywio, yn cyfrif am 24% ac roeddent yn cynnwys:

- gwaith cadwraeth
- diffyg cyfleusterau megis toiledau a chaffi

- Y pandemig (ynghau)
- bob amser ynghau
- yr ardal amgylchynol heb fod yn apelio
- ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda'r nos
- lleoedd gwell i gerdded
- anghofio ei fod yno

### *A oes unrhyw ffactorau sy'n eich atal rhag ymweld yn fwy rheolaidd?*

### Ffigur 4: Ffactorau sy'n atal pobl rhag ymweld yn fwy rheolaidd




*Sylfaen – 1,083*


3.3.2 I'r rhai nad ydynt wedi ymweld ag Abaty Nedd, y prif reswm yw diffyg hysbysebu (29%), ac yna diffyg amser (14%), yna does dim llawer i'w wneud yn y math hwn o safle (13%).

Mae diffyg hysbysebu (29%) a dydw i ddim yn gwybod digon am Abaty Nedd (11%) yn awgrymu nad yw pobl yn ymwybodol o'r safle neu fod angen eu hatgoffa ohono.

Dywedodd 3% o bobl nad yw eu hiechyd yn ddigon da i ymweld (a dywedodd 7% o'r bobl sy'n ymweld fod iechyd yn ffactor o beidio ag ymweld mwyach), o'i gymharu â 18% yn yr Arolwg Cenedlaethol.

***Pam nad ydych chi wedi ymweld ag Abaty Nedd?***

**Ffigur 5: Rhesymau dros beidio ag ymweld ag Abaty Nedd**




*Sylfaen – 1,083*

Rhestrodd 38% o'r ymatebwyr 'arall' gyda'r rhesymau yn cynnwys yr uchod, ynghyd â:

- Byddai'n dda gen i pe bawn i wedi gwneud nawr gan eich bod wedi sôn am y peth
- Wyddwn i ddim ei fod yno
- Rwy'n cadw bwriadu gwneud ond dydw i ddim wedi gwneud hynny eto
- Doeddwn i ddim yn gwybod ei fod yn agored i'r cyhoedd
- Dydw i ddim yn hoffi'r lleoliad
- Covid-19
- Anhygyrch i bobl anabl

- Aros i'r gladdgell ailagor
- Mae’r gatiau yn ymddangos fel pe baen nhw wedi'u cloi bob amser

Mae rhai sylwadau yn cynnwys:

*‘Rwy’n dwlu ar y safle hwn ond ’dyw e byth ar agor, byth yn cael ei hysbysebu, dim canolfan ymwelwyr, dim gwybodaeth, dim hysbysebu, dim maes parcio.’*

*‘Dwi ddim yn meddwl am y peth mewn gwirionedd. Mae'n debyg oherwydd ei fod yn agos i’m cartref. Hoffwn weld y lle yn iawn a bydda i’n ymdrechu i wneud hynny cyn hir.’*

*‘A dweud y gwir, doeddwn i ddim yn sylweddoli mor fawr yw’r ardal y mae’n ei chwmpasu a hefyd faint o’r adeilad sydd ar ôl.’*

*‘Rwy’n anghofio ei fod e yno ac mae’r lle mor ynysig gyda dim byd o’i gwmpas i ddenu pobl.’*

3.3.3 Rhwystrau oherwydd statws cyflogaeth:

Dywedodd 32% o’r ymatebwyr nad ydynt yn ymweld yn amlach oherwydd cyfyngiadau amser. O blith y rhai a ddywedodd nad oes ganddynt ddigon o amser i ymweld, roedd 67% mewn gwaith cyflogedig a 21% wedi ymddeol.

Y rhwystr mwyaf i’r rhai mewn cyflogaeth am dâl yw dim digon o hysbysebu (23%), ac yna amser (12%), wedyn, nid oes llawer i’w wneud (6%).

Y rhwystr mwyaf i’r rhai sydd wedi ymddeol yw cyfyngiadau iechyd (33%), ac wedyn amser (21%).

3.3.4 Rhwystrau yn ôl oedran:

Yn yr un modd, yn achos y rhai sydd wedi ymddeol, nid yw’r rhai dros 65 oed yn ymweld oherwydd nad ydynt yn gweld llawer o hysbysebu (29%), ac wedyn dim digon o amser (15%), yna does dim llawer i’w wneud (8%).

Adroddodd y rhai 25-49 oed mai’r rhwystr mwyaf oedd diffyg hysbysebu (26%), ac yna ‘Dwi ddim yn gwybod digon am yr Abaty’ (14%) ac amser (14%).

Mae’r grwpiau oedran eraill yn dilyn y patrwm hwn, a’r unig eithriad yw achosion isel o ‘Dwi’n anghyfarwydd â’r math hwn o safle’ ymhlith y rhai 45-54 oed.

3.3.5 Rhwystrau yn ôl rhyw:

Roedd y canfyddiadau ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd yn debyg yn fras, ond dywedodd mwy o wrywod fod amser yn rhwystr (14% o'i gymharu â 10% ar gyfer merched).

## 3.4 Gwybodaeth am hanes a threftadaeth yr ardal:


Wrth ofyn faint oedd yr ymatebwyr yn ei wybod am hanes a threftadaeth Abaty Nedd a'r cyffiniau, roedd y canlyniadau'n debyg ar draws eu gwybodaeth am yr Abaty ei hun, ardal cwm Nedd, ac ardal ehangach Castell-nedd Port Talbot, gyda 50-55% yn weddol ymwybodol o bob un. Roedd rhwng 5-7% heb unrhyw ymwybyddiaeth; roedd 20-22% yn ymwybodol iawn ac roedd 5% ar draws y tri yn ymwybodol dros ben. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu nad yw pobl yn fwy/llai ymwybodol o'r Abaty nag ydynt o dreftadaeth yr ardal gyfagos. Cyfranogwyr rhwng 35-54 oed oedd fwyaf ymwybodol ar draws pob ardal.

## 3.5 Sut mae'r Abaty yn rhan o'r gymuned leol?

- Roedd 81% o'r ymatebwyr yn cytuno nad yw'r gymuned yn defnyddio'r Abaty'n ddigonol (roedd 3% yn anghytuno) ac roedd 12% yn cytuno bod y gymuned wedi'i datgysylltu'n emosiynol oddi wrth yr Abaty.
- Er hynny, mae 60% o bobl yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr Abaty yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned (gyda 13% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf) a 50% yn cytuno bod trigolion lleol yn mwynhau'r Abaty (tra bod 11% yn anghytuno).
- Roedd 13% yn cytuno bod yr Abaty ar gyfer twristiaid yn unig, tra bod 55% yn anghytuno. Mewn cwestiwn diweddarach, dywedodd 81% o'r ymatebwyr y byddent yn hoffi iddo gael ei ddatblygu fel atyniad i dwristiaid.
- Ni wyddai'r mwyafrif a yw'r Abaty'n cael ei ddefnyddio at ddibenion addysgol, ond roedd 44% yn meddwl ei fod a 13% o'r farn nad oedd.
- Roedd 54% yn cytuno bod y safle'n cael ei ddefnyddio gan gerddwyr cŵn, rhedwyr ac ati (er bod 6% yn anghytuno).
- Roedd 69% yn cytuno bod yr Abaty yn lle sy'n hoff gan bobl ond nad oes yno bethau i'w gwneud, a dim ond 5% oedd yn anghytuno. Yn yr un modd, dywedodd 77% nad oedd digon o ddigwyddiadau (roedd 4% yn anghytuno).

*Ym mha ffordd rydych chi'n teimlo bod Abaty Nedd yn rhan o'r gymuned leol?*

**Ffigur 6: Canfyddiad cyfranogwyr o sut mae'r Abaty yn rhan o'r gymuned leol**




*Sylfaen – 1,083*

## 3.6 Datblygiad fel atyniad i dwristiaid:

Roedd 81% o'r ymatebwyr o'r farn y dylid datblygu'r Abaty fel atyniad i dwristiaid; dywedodd 4% nad oeddent yn meddwl felly ac ymatebodd 14% 'arall' neu ddim yn gwybod. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson ar draws grwpiau demograffig, ac ar draws cymhellion ar gyfer ymweld ac amlder ymweliadau.

### 3.7 Defnyddio Abaty Nedd yn y dyfodol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr esbonio sut yr hoffent i'r gymuned ddefnyddio Abaty Nedd yn y dyfodol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

*'Ambell fainc bicnic, efallai. Mae'n lle gwych i blant redeg o gwmpas, dringo, darllen. Mae plant yn ymateb yn fwy os ydyn nhw'n gwneud pethau, felly mae'r dringo'n wych ac maen nhw wrth eu bodd.'*

*'Gellid ei gysylltu â safleoedd eraill yn ardal Castell-nedd Port Talbot. h.y. amgueddfa Glofa Cefn Coed, Rhaeadr Aberdulais, Abaty Margam ac ati. Mae angen mwy o gyhoeddusrwydd ar gyfer y safle hwn a mwy o grantiau.'*

*'Aros fel y mae. Angen maes parcio gwell ac efallai ychydig mwy i'w wneud ar y safle – hyd yn oed siop fach'*

*'Sgyrsiau hanesyddol, teithiau tywys, gŵyl fwyd, helfeydd Pasg, sinema awyr agored dros dro.'*

*'Byddai canolfan gymunedol ar y safle i grwpiau demograffig amrywiol ei defnyddio yn cysylltu'r gymuned yn ôl â'r Abaty. Gallai grwpiau ymgorffori a meithrin brwdfrydedd dros hanes lleol, sgwrsio a chadwraeth ac archeoleg trwy weithgareddau, digwyddiadau a dim mwy na bod yn agos at y safle. Mae angen i'r safle fod yn hygyrch i rai ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol. Byddai hyn i gyd hefyd yn helpu annog twristiaid i ymweld â'r safle.'*

*'Gwnewch yr ardal sy'n union o amgylch yr Abaty yn lle brafiach i fod ynddo. Ewch ati i wella llwybrau cerdded y gamlas. Ewch i'r afael â'r tipio anghyfreithlon a'r sbwriel ar y ffyrdd cyfagos.'*

Ymhlith y geiriau poblogaidd mae:

- Digwyddiad (344), digwyddiad (18)
- Addysg/addysgiadol (68), Ysgolion (35), ysgol (26)
- Caffi (39), bwyd (29)
- Cyngherddau (39)
- Cerddoriaeth (38)
- Crefft (29)
- Theatr (27), dramâu (17), sinema (16)

- Siop (26)
- Ffeiriau (25), gŵyl/iau (36), ffeiriau (17)
- Sgyrsiau (24)
- Parcio (20)
- Mynediad (17)

### 3.8 Cysylltu treftadaeth, cyfranogiad a lles

Nid yw canlyniadau'r arolwg presennol yn dangos unrhyw gydberthynas uniongyrchol rhwng lles ac ymweld ag Abaty Nedd o fewn y 12 mis diwethaf, ond mae'r data'n darparu llinell sylfaen ar gyfer casglu data yn ardal Abaty Nedd yn y dyfodol ac ar gyfer cymharu â chymunedau eraill.

## 4. Casgliadau ac Argymhellion

4.1 Mae cyfran y bobl sy’n bwriadu ymweld ag Abaty Nedd yn y 12 mis nesaf yn uwch na’r rhai sydd wedi ymweld yn y gorffennol, sy’n awgrymu diffyg ymwybyddiaeth neu’r angen am gael eu hatgoffa am yr Abaty. Byddai mwy o farchnata mewn perthynas â’r Abaty yn cael effaith gadarnhaol ar niferoedd ymwelwyr ac ar ymgysylltiad cymunedol er mwyn cadw’r Abaty ym meddyliau pobl. Mae lleoliad yr Abaty yn golygu nad yw mor weladwy i bobl sy’n teithio drwy’r ardal na’r gymuned yn ystod eu gweithgareddau dyddiol.

4.2 Mae'r rhesymau pam bod pobl yn ymweld ag Abaty Nedd yn cyd-fynd yn fras â'r rhesymau dros ymweld â henebion eraill Cadw ac mae ganddynt yr un lefel o flaenoriaeth, sy'n awgrymu efallai nad yw agosrwydd at yr heneb yn ffactor pwysig.

Canfu arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 fod gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr sy’n ymweld â safleoedd treftadaeth ddiddordeb mewn cestyll/safleoedd hanesyddol a diwylliant / hanes Cymru. Roedd y gyfran a nododd fod y prif gymhellion hyn dros ymweld ag Abaty Nedd yn is, ond gallai hyn fod oherwydd y nifer uchel o bobl sy'n defnyddio (hefyd yn defnyddio) y safle ar gyfer gweithgareddau hamdden ac mae'r arolwg hwn yn samplu'r boblogaeth leol yn hytrach na thwristiaid.

Y prif reswm pam nad yw'r rhai sy'n ymweld yn ymweld yn amlach, a'r ail reswm sy’n cael ei roi amlaf gan y rhai nad ydynt wedi ymweld, yw dim digon o amser. Mae diffyg amser i ymweld â safleoedd treftadaeth hefyd yn ffactor arwyddocaol a nodwyd mewn ymchwil arall a wnaed gan Cadw, e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Arolwg Ymwelwyr Cymru. Er bod diffyg amser i ymweld â threftadaeth yn rhwystr anodd i Cadw allu dylanwadu arno, gellid archwilio ffyrdd o gynyddu treftadaeth fel blaenoriaeth yn achos Abaty Nedd, e.e. mwy o ymgysylltiad cymunedol er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo ymdeimlad o berchnogaeth dros y safle. Nid oedd gan 15% o’r bobl sydd wedi ymddeol ddigon o amser i ymweld, sy'n dangos bod amser hefyd yn ffactor i'r rhai sydd wedi ymddeol o fyd gwaith.

4.3 Yr ail reswm mwyaf cyffredin pam nad yw pobl yn ymweld yn amlach (ac yn drydydd ymhlith y rhai nad ydynt wedi ymweld) yw’r argraff nad oes llawer i’w wneud ar y safle. Heb ymchwilio ymhellach, nid yw'n glir a yw hwn yn ganfyddiad sy'n seiliedig ar y syniad o'r hyn sydd gan safleoedd treftadaeth i'w gynnig neu a yw'n seiliedig ar fod wedi ymweld yn ddiweddar a theimlo na fyddai angen

dychwelyd. Gallai Cadw geisio cynyddu nifer y pethau parhaol neu dros dro (e.e. digwyddiadau) i’w gwneud ar y safle, ond hefyd cynyddu’r cyfathrebu ynghylch y gweithgareddau presennol ar y safle.

I’r rhai sydd heb ymweld ag Abaty Nedd yn y 12 mis diwethaf, y prif reswm oedd diffyg hysbysebu, gyda sylwadau’n cynnwys ‘Anghofiais ei fod yno’ a ‘Dydw i ddim yn cofio ymweld’. Diffyg hysbysebu yw'r prif reswm pam nad yw pobl yn ymweld, ond nid yw'n ffactor o ran nad yw'r rhai sy'n ymweld yn ymweld yn fwy rheolaidd, ac mae’n dangos bod diffyg ymwybyddiaeth o'r safle yn cael effaith ar niferoedd yr ymwelwyr, boed hynny oherwydd nad ydynt yn gwybod am Abaty Nedd neu eu bod wedi anghofio amdano.

Gofynnwyd i gyfranogwyr ‘ticiwch bob un sy’n berthnasol’ pan ofynnwyd iddynt pam nad ydynt yn ymweld neu pam nad ydynt yn ymweld yn amlach. Dyma’r opsiynau lle cafwyd nifer isel o ymatebion:

- diffyg diddordeb yn Abaty Nedd neu hanes/diwylliant Cymru
- mae'r Abaty ar gyfer twristiaid ac nid y bobl leol
- wedi ymweld â safleoedd tebyg eraill ac maen nhw i gyd fwy neu lai yr un peth
- ffafrio mathau eraill o ddiwrnodau allan

4.4 Dywedodd nifer fach iawn o’r rhai a ddywedodd y byddent yn ymweld yn amlach nad yw eu hiechyd yn ddigon da. Roedd y nifer hwn yn isel o’i gymharu â chanlyniadau’r Arolwg Cenedlaethol, sy’n awgrymu bod y cymunedau o gwmpas Abaty Nedd mewn iechyd gwell na’r cyfartaledd a/neu fod y safle’n fwy hygyrch i bobl â phroblemau iechyd na’r safle treftadaeth ‘arferol’ canfyddedig (e.e. castell gyda llawer o dyrau).

4.5 Pan ofynnwyd faint oedd yr ymatebwyr yn ei wybod am hanes a threftadaeth Abaty Nedd, Cwm Nedd a Castell Nedd Port Talbot, roedd y canlyniadau’n gyson isel ar draws y tri, gyda thua hanner yr ymatebwyr yn dweud eu bod yn weddol ymwybodol. O ystyried treftadaeth gyfoethog ac amrywiol yr ardal mae cyfle i hyrwyddo ei hasedau treftadaeth i fwy o bobl, a hynny’n fwy rheolaidd; nid yn unig gan Cadw ond gan sefydliadau treftadaeth eraill hefyd.

4.6 Mae’r canlyniadau ar gyfer sut mae’r Abaty yn perthyn i’r gymuned yn dangos teimlad gan rai bod yna ddatgysylltiad emosiynol rhwng y gymuned a’r Abaty, gydag ymatebion mynych fel ‘nid yw’n chwarae rôl bwysig yn y gymuned’ ac ‘nid yw’r gymuned yn gwneud digon o ddefnydd ohono’. Mae hyn yn awgrymu bod digon o le i weithio gyda’r gymuned er mwyn gwella’r ymdeimlad o berchnogaeth a defnydd cyffredinol yr heneb. Dangosodd dadansoddiad o’r ymatebion ansoddol fod diffyg toiledau defnyddiadwy a chyfleusterau eraill (meinciau, caffi, a siop) yn rhwystr i ddefnydd gan y gymuned, e.e. anallu ysgolion i ymweld oherwydd cyfleusterau toiled cyfyngedig. Gofynnodd y cyfranogwyr hefyd am deithiau, cerddoriaeth fyw, profiadau theatr a sinema, ffeiriau/ffêtiau, gwyliau bwyd, ailgreadau hanesyddol, gweithgareddau plant a chrefftau. Roedd y teimlad bod diffyg pethau i’w gwneud ar y safle hefyd yn gryf ar gyfer y cwestiwn hwn.

Pan ofynnwyd iddynt sut yr hoffent i'r gymuned ddefnyddio Abaty Nedd yn y dyfodol, roedd yr ymatebion yn adlewyrchu'r ymatebion ansoddol a dderbyniwyd uchod, gyda digwyddiadau o'r pwys mwyaf. Mae hyn yn awgrymu bod y gymuned yn bennaf yn gweld amrywiaeth o ddigwyddiadau fel y ffordd i'r gymuned ymgysylltu â'r safle yn y dyfodol. Byddai hyn wrth gwrs yn annog ymweliadau mynych gan y rhai sy’n teimlo nad oes llawer i’w wneud ar y safle. Cyfeiriwyd at a soniwyd eto hefyd am ysgolion ac addysg, a diffyg cyfleusterau.

4.7 Mae aelodau Cadw ychydig yn fwy tebygol o ymweld ag Abaty Nedd yn aml. Mae hyn yn cefnogi’r canfyddiadau ynghylch diffyg ymwybyddiaeth drwy farchnata a chyfathrebu – er nad yw aelodau Cadw yn cael mwy o hysbysebu am yr Abaty ei hun (heblaw am dderbyn map teithiol De Cymru) maen nhw yn cael mwy o wybodaeth am safleoedd hanesyddol yng Nghymru ac efallai eu bod felly yn fwy ‘ymwybodol’ o dreftadaeth.

4.8 Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno y gellid datblygu'r Abaty fel atyniad i dwristiaid, sy'n awgrymu bod y gymuned yn falch o'r safle ac eisiau mwy o bobl i gael profiad o’r lle a/neu eu bod yn deall manteision economaidd dod â mwy o dwristiaeth i'r ardal.

4.9 Mae'r ymchwil bresennol yn arolwg peilot ar ymgysylltu â'r gymuned er mwyn darparu tystiolaeth i Dîm Datblygu Henebion Abaty Nedd. Mae’r dystiolaeth hon yn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch datblygiad yr Abaty yn y dyfodol yn rhoi

ystyriaeth i adborth y gymuned. Gellir ailadrodd yr ymchwil hwn yn y dyfodol er mwyn gwerthuso effaith unrhyw ymyriadau a datblygiadau.

**Atodiad A:**

Holiadur:

| |
|---|
| Rhagarweiniad:<br>*Mae Cadw yn asesu'n rheolaidd effaith bosibl ei safleoedd ar y gymuned leol, pobl Cymru ac ymwelwyr. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn am wahanol ddefnydd posibl i Abaty Nedd yn y dyfodol.*<br>*Mae gan safleoedd hanesyddol yng Nghymru'r potensial i wella lles ac ymgysylltu'n gadarnhaol â'r cymunedau lle maent wedi'u lleoli yn ogystal â denu ymwelwyr a sicrhau manteision i'r economi. Mae eich barn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob cyfle yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw ddatblygiadau posibl yn y dyfodol ar safleoedd Cadw ac Abaty Nedd yn benodol.*<br>*Mae'r arolwg yn cymryd 3-7 munud i'w gwblhau, ac i ddiolch i chi am eich amser byddwn yn eich cynnwys mewn raffl i ennill un o dri thocyn aelodaeth Cadw (neu adnewyddiad os ydych eisoes yn aelod).*<br>*Diolch yn Fawr*<br>*Cadw* |
| 1. A ydych chi wedi ymweld ag Abaty Nedd yn ystod y 12 mis diwethaf?<br><br>*Ydw, rwy'n ymweld yn rheolaidd*<br>*Ydw, rydw i wedi ymweld ychydig o weithiau*<br>*Ydw, rydw i wedi ymweld unwaith neu ddwy*<br>*Ydw, ond nid yn ystod y 12 mis diwethaf*<br>*Na, dydw i ddim wedi ymweld*<br>*Ddim yn gwybod* |
| 2. Beth oedd eich rhesymau dros ymweld? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)<br><br>*Mae gen i ddiddordeb yn hanes Cymru, diwylliant safleoedd hanesyddol*<br>*Roeddwn i eisiau cael profiad o Abaty Nedd a dysgu mwy amdano*<br>*Mae Abaty Nedd yn rhan annatod o'm cymuned*<br>*Mae'r mynediad am ddim*<br>*Ymwelais fel rhan o addysg ffurfiol*<br>*Roeddwn i eisiau cael profiad o ddigwyddiad neu weithgaredd penodol yn Abaty Nedd* |

*Argymhellwyd Abaty Nedd i mi*

*Rwy'n gwneud ymarfer corff ar y safle, e.e. cerdded, rhedeg neu fynd â’r ci am dro*

*Arall (nodwch, os gwelwch yn dda):*

3. A oes unrhyw resymau pam na fyddwch yn ymweld yn fwy rheolaidd?

*Does gen i ddim digon o amser*

*Mae fy iechyd yn cyfyngu arnaf*

*Does gen i ddim diddordeb yn Abaty Nedd*

*Does gen i ddim diddordeb yn hanes a/neu ddiwylliant Cymru*

*Dydw i ddim yn gwybod digon am Abaty Nedd*

*Mae Abaty Nedd ar gyfer twristiaid, nid ar gyfer fy nghymuned i*

*Mae'n well gen i fathau eraill o ddiwrnodau allan*

*Rwy’ wedi ymweld â safleoedd tebyg ac maen nhw i gyd, yn fras, yr un peth*

*Does dim llawer i'w wneud ar safle o’r fath*

*Rwy'n anghyfarwydd â safle o’r fath a dydw i ddim yn gweld llawer o hysbysebu am yr Abaty*

*Nid oes unrhyw rwystrau*

*Ddim yn gwybod*

*Arall (nodwch, os gwelwch yn dda):*

4. Pam nad ydych chi erioed wedi ymweld ag Abaty Nedd?

*Does gen i ddim digon o amser*

*Mae fy iechyd yn cyfyngu arnaf*

*Does gen i ddim diddordeb yn Abaty Nedd*

*Does gen i ddim diddordeb yn hanes a/neu ddiwylliant Cymru*

*Dydw i ddim yn gwybod digon am Abaty Nedd*

*Mae Abaty Nedd ar gyfer twristiaid, nid ar gyfer fy nghymuned i*

*Dydy pobl fel fi ddim yn ymweld â safleoedd fel hyn*

*Mae'n well gen i fathau eraill o ddiwrnodau allan*

*Rwy'n teimlo bod safleoedd fel hyn yn ddiflas*

*Rwy’ wedi ymweld â safleoedd tebyg ac maen nhw i gyd, yn fras, yr un peth*

*Does dim llawer i'w wneud ar y math hwn o safle*

*Rwy'n anghyfarwydd â'r math hwn o safle, felly dydw i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl*

| |
|---|
| *Dwi ddim yn gweld llawer o hysbysebu, felly dydw i ddim ymwybodol o'r safle a'i nodweddion, nac yn cael fy atgoffa amdano*<br>*Ddim yn gwybod*<br>*Arall (nodwch, os gwelwch yn dda):* |
| 5. A fyddwch chi'n ymweld ag Abaty Nedd yn y 12 mis nesaf?<br><br>*Byddaf, rwy'n ymweld yn rheolaidd ac yn bwriadu parhau i wneud hynny*<br>*Byddaf, rwy'n debygol o ymweld eto*<br>*Does gen i ddim cynlluniau i ymweld eto*<br>*Ddim yn gwybod* |
| 6. Faint ydych chi'n ei wybod am hanes a threftadaeth Abaty Nedd a'r cyffiniau (ddim yn ymwybodol – yn ymwybodol iawn)?<br><br>*Abaty Nedd*<br>*Cwm Nedd*<br>*Castell-nedd Port Talbot* |
| 7. Ym mha ffordd rydych chi'n teimlo bod Abaty Nedd yn perthyn i'r gymuned leol (cytuno'n gryf – anghytuno'n gryf)?<br><br>*Mae Abaty Nedd yn chwarae rhan bwysig yn y gymuned*<br>*Nid yw'r gymuned yn defnyddio'r Abaty'n ddigonol*<br>*Mae'r gymuned wedi'i datgysylltu'n emosiynol oddi wrth yr Abaty*<br>*Mae Abaty Nedd ar gyfer twristiaid yn hytrach na'r gymuned leol*<br>*Mae Abaty Nedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion addysg*<br>*Mae Abaty Nedd yn cael ei ddefnyddio gan gerddwyr cŵn/cerddwyr/loncwyr/rhedwyr*<br>*Mae'r gymuned leol yn mwynhau Abaty Nedd*<br>*Mae'r gymuned yn hoff iawn o Abaty Nedd ond prin yw'r pethau i'w gwneud ar y safle*<br>*Mae'r gymuned yn hoff iawn o Abaty Nedd ond does dim digon o ddigwyddiadau ar y safle*<br>*A hoffech chi ymhelaethu ar unrhyw rai o'r atebion uchod?* |

8. Sut hoffech chi i Abaty Nedd gael ei ddefnyddio gan y gymuned yn y dyfodol? (ateb testun rhydd)

9 A ydych chi'n meddwl y dylid datblygu Abaty Nedd fel atyniad i dwristiaid er mwyn denu pobl i'r ardal?

*Ydw*

*Nac ydw*

*Ddim yn gwybod*

*Arall (nodwch, os gwelwch yn dda):*

Ychydig amdanoch chi – sut ydych chi'n rhyngweithio â threftadaeth a'ch lles

9. Gan feddwl am Gymru gyfan, ym mha ffordd mae adeiladau hanesyddol yng Nghymru yn rhan o'ch bywyd chi?

*Rwy'n ymweld â henebion fel gweithgaredd hamdden ar deithiau dydd o gartref*

*Rwy'n ymweld â henebion fel gweithgaredd hamdden tra ar wyliau*

*Rwy'n ymweld â henebion yn sgil fy ngwaith*

*Rwy'n ymweld â henebion trwy wirfoddoli*

*Rwy’n ymweld â henebion hanesyddol fel rhan o weithgarwch bob dydd e.e. ymarfer corff neu fynd â’r ci am dro*

*Rwy’n ymgysylltu ar-lein â’r amgylchedd hanesyddol, e.e. gwefan Cadw, ap neu’r cyfryngau cymdeithasol*

*Rwy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol*

10. Pa mor aml rydych chi wedi ymweld ag unrhyw heneb hanesyddol yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf?

*Dim o gwbl*

*Unwaith neu ddwy*

*3-4 gwaith*

*5-11 gwaith*

*12-24 gwaith*

*24-49 o weithiau*

*50 a mwy o weithiau*

11. Pa mor aml rydych chi wedi ymweld â safle hanesyddol yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y 12 mis diwethaf?

*Dim o gwbl*

*Unwaith neu ddwy*

*3-4 gwaith*

*5-11 gwaith*

*12-24 gwaith*

*24-49 o weithiau*

*50 a mwy o weithiau*

12. Sut mae ymgysylltu â'r Amgylchedd Hanesyddol o fudd i chi? Rwy'n elwa trwy…

*Dysgu mwy am hanes, diwylliant a threftadaeth*

*Yn teimlo fy mod i'n cael fy ysbrydoli gan yr amgylchedd hanesyddol*

*Yn teimlo fy mod yn gwneud fy rhan i warchod yr amgylchedd hanesyddol*

*Yn teimlo ymdeimlad o berchnogaeth dros fy safleoedd treftadaeth lleol*

*Yn teimlo fel rhan o gymuned ac yn cysylltu â thrigolion eraill*

*Yn treulio amser gyda theulu a ffrindiau wrth ymweld â henebion hanesyddol*

*Yn rhannu fy ngwybodaeth gyda phobl eraill*

*Mwy o deimlad o hapusrwydd a lles*

13. A ydych chi'n cytuno â'r datganiadau isod (cytuno'n gryf – anghytuno'n gryf)?

*Rwy'n fodlon ar fy mywyd y dyddiau hyn*

*Mae pethau rwy'n eu gwneud yn fy mywyd yn werth chweil*

*Roeddwn i'n teimlo'n hapus ddoe*

*Roeddwn i'n teimlo'n bryderus ddoe*

14 Oedran

*Dan 18*

*19-24 oed*

*25-34 oed*

| |
|---|
| *35-44 oed*<br>*45-54 oed*<br>*55-59 oed*<br>*60-64 oed*<br>*65+ oed* |
| 15 Sut ydych chi'n cael eich adnabod?<br>*Benyw*<br>*Gwryw*<br>*Anneuaidd*<br>*Arall*<br>*Gadewch i fi nodi* |
| 16 Hunaniaeth ethnig<br>*Gwyn*<br>*Grwpiau ethnig cymysg/lluosog*<br>*Asiaidd/Asiaidd Prydeinig*<br>*Affricanaidd*<br>*Caribïaidd/Du*<br>*Arabaidd*<br>*Gwell gennyf beidio â dweud*<br>*Grŵp ethnig arall:* |
| 17. Gan feddwl am eich sefyllfa waith, beth oeddech chi'n ei wneud yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?<br>*Myfyriwr llawn amser (gan gynnwys ar wyliau)*<br>*Mewn unrhyw gyflogaeth â thâl neu hunangyflogaeth (neu i ffwrdd dros dro e.e. ar wyliau, i ffwrdd yn sâl, yn hunanynysu)*<br>*Ar gynllun hyfforddi a noddir gan y llywodraeth*<br>*Gwneud gwaith di-dâl i fusnes rydych chi neu berthynas yn berchen arno*<br>*Aros i dderbyn gwaith cyflogedig a sicrhawyd eisoes*<br>*Di-waith ac yn chwilio am waith*<br>*Yn bwriadu chwilio am waith ond yn cael fy atal gan salwch neu anaf dros dro (28 diwrnod neu lai)* |

| |
|---|
| *Methu gweithio oherwydd salwch hirdymor neu anabledd*<br>*Wedi ymddeol*<br>*Gofalu am gartref neu deulu*<br>*Gwneud rhywbeth arall*<br>*Ddim yn gwybod* |
| 17 Aelod o Cadw<br>*Ydw*<br>*Nac ydw*<br>*Ddim yn gwybod* |
| 18 Cod post eich man preswylio |
| 20. Os gwelwch yn dda, nodwch eich cyfeiriad e-bost isod er mwyn cael eich cynnwys yn y raffl i ennill un o dri thocyn aelodaeth Cadw (neu adnewyddiad os ydych eisoes yn aelod). Ni fyddwn yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost at unrhyw ddiben arall heblaw eich hysbysu os ydych yn un o'n henillwyr lwcus.<br><br>Testun clo:<br>Rydych chi wedi cwblhau'r arolwg hwn!<br><br>Diolch am roi o'ch amser i ateb yr arolwg hwn.<br>Os ydych wedi dewis gadael eich cyfeiriad e-bost, byddwch yn cael eich cynnwys mewn raffl i ennill un o dri thocyn aelodaeth Cadw (neu adnewyddiadau). Cynhelir y raffl ar XXXX, a byddwn yn cysylltu â chi trwy e-bost yn fuan wedyn os ydych chi'n un o'n henillwyr. (TacAau)<br><br>I weld canfyddiadau'r adroddiad hwn ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf am Abaty Nedd, ewch i wefan Cadw, os gwelwch yn dda. |